

GOLEUADAU



ADEILADAU

ECO  **CHURCH**
AN A ROCHA UK PROJECT



ALLCHURCHES TRUST LIMITED®
OWNERS OF ECCLESIASTICAL INSURANCE GROUP

www.ecochurch.arocha.org.uk



ADEILADAU

Goleuadau

PAM?

Goleuni naturiol yr haul yw darpariaeth Duw i bob un ohonom i fod yn sylfaen i'r holl fywyd ar y ddaear drwy ffotosynthesis a thrwy ddarparu cynhesrwydd i ni fyw ynddo. Creodd Duw rhythm y nos a'r dydd i roi gorffwys i ni, ond ar rai adegau o'r flwyddyn byddai'n well gennym gael mwy o'r dydd a llai o'r nos!

Dim ond ers tua 100 mlynedd y mae golau ffug wedi rhedeg ar hyd grid trydan cenedlaethol i wneud ein bywydau modern yn bosibl, gan ymestyn yr oriau y gallwn wneud pethau a'n helpu i deimlo'n ddiogel. Mae golau'n creu awyrgylch, yn siapio ein hwyliau, yn effeithio ar ein hemosiynau. Erbyn hyn rydym yn gwybod bod gormod ohono, yn enwedig yn y nos, yn amharu nid yn unig ar ein cwsg, ond hefyd ar lawer o ecosystemau'r byd (ac yn gwastraffu adnoddau). Sut ydym ni fel eglwysi'n cadw'r cydbwysedd yn gywir? <https://www.darksky.org/light-pollution/wildlife/>

SUT?

Gallwn ni sicrhau buddion cyflym drwy wneud pethau fel cofio diffodd y goleuadau neu eu pylu. Fel arfer, mae troi i ddefnyddio LEDs yn benderfyniad cost-effeithiol sy'n arbed carbon. Weithiau, mae hyn mor syml â newid y bylbiau golau a ddewiswn; weithiau mae angen i ni wneud newid mwy i'n systemau.

<https://energysavingtrust.org.uk/getting-best-out-your-led-lighting/>

Os ydych chi'n ystyried system oleuo newydd, cymerwch gyngor proffesiynol, gan gynnwys – os ydych yn perthyn i Eglwys Loegr neu'r Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru – siarad â'ch pensaer/pwyllgor ymgynghorol eich esgobaeth. Dyma rywfaint o'r data sylfaenol i'w ystyried gyda'ch cynghorwr:

- Oed y system bresennol
- Y math o lamp sydd yno ac am faint y mae'n debygol o bara
- Cost y lampau cyfredol a lampau newydd



ADEILADAU

Goleuadau

- Faint o gyfalaf y bydd rhaid ei thalu i wneud unrhyw newid
- Y lefelau golau sy'n angenrheidiol
- Am faint o oriau y maen nhw ymlaen

Ochr yn ochr â thargedau i ostwng y maint o egni a ddefnyddiwch, eich ôl-troed carbon, a'ch costau rhedeg a chynnal a chadw, ystyriwch a yw'r golau cyfredol yn addas i'r pwrpas:

- A oes maint cywir o oleuni yn y lleoedd cywir?
- Ydych chi eisiau gallu goleuo rhai rhannau o'r adeilad yn unig neu allu pylu'r golau mewn rhai rhannau o'r adeilad?
- Hoffech chi greu gwell awyrgylch gyda'r golau neu dynnu sylw at nodweddion pensaernïol penodol?
- A yw'r isadeiledd trydanol wedi ei ddiweddarau ac yn addas i'r goleuadau yr ydych eu heisiau?
- A fydd y gweithgareddau yn yr adeilad yn newid yn y dyfodol? Pa effaith allai hynny ei gael ar yr anghenion goleuo?

Aseswch beth fyddai manteision ffisegol ac ariannol y newidiadau, a'r buddion o ran carbon, o'i gymharu â chost cyfalaf y gwaith, y gwastraff tebygol wrth gael gwared â'r system bresennol, y gymhariaeth rhwng costau rhedeg yr hen a'r newydd, a, lle bo'n berthnasol, unrhyw ofynion treftadaeth: <https://www.cse.org.uk/advice/advice-and-support/lighting>

LLIFOLEUADAU

Oes gennych chi bolisi llifoleuadau? Gall hwn fod yn fater anodd. Mae llawer o eglwysi eisiau llifoleuadau i ddangos bod yr eglwys yn gymuned fyw neu i dynnu sylw at nodweddion pensaernïol. Mae pryder cynyddol am effaith goleuadau yn y nos ar iechyd anifeiliaid a phobl. Mae'r Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol yn dweud wrthyfych am effaith llygredd golau ac yn ystyried sut i ddarparu goleuadau awyr agored sy'n addas i awyr dywyll: <https://www.darksky.org/our-work/lighting/lighting-for-citizens/lighting-basics/>



ADEILADAU

Goleuadau

Mae Esgobaeth Exeter wedi cyhoeddi'r nodyn arweiniol defnyddiol hwn am lifoleuadau: <https://exeter.anglican.org/wp-content/uploads/2018/09/Floodlighting.pdf>

EFFAITH GOLAU AR YR AMGYLCHEDD

Tynnwch sylw mwy o bobl at y ffaith bod goleuadau'n effeithio ar natur ac ar ein planed drwy ymuno ag 'Awr y Ddaear'. Mae hon yn awr bob blwyddyn pan fyddwch yn diffodd y goleuadau i gyd: <https://www.earthhour.org/>

DEFNYDDIAU DARLLEN HIRACH AC ADNODDAU ERAILL

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi cynhyrchu canllaw manwl ar sut i asesu eich gofynion goleuo a gwneud gwelliannau posibl: https://churcheinwales.contentfiles.net/media/documents/Property_Dept_-_Lighting_in_Churches_Guidance.pdf

Mae gan Eglwys Loegr gyfres o Weminarau Carbon Sero-Net yn cynnwys un ar oleuadau sy'n trafod y materion hyn yn fanylach yn ogystal â rhai astudiaethau achos defnyddiol: https://www.youtube.com/watch?v=n9u_nK4f_ck 'starts at 4:16'

ASTUDIAETHAU ACHOS

http://www.medlockhead.co.uk/barnabas/eco-church_files/Lighting%20conversion.pdf

<http://www.cloudesley.org.uk/media/1269/case-study-st-andrews-whitehall-park-lighting-and-wiring.pdf>

